Llywodraeth y DU

# Help gyda **Chostau Byw**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Help i Gartrefi

Ein cyfeirnod: **COL1WER** 10/23

# Cynnwys


1




**Cyflwyniad**

Tudalen 3

2




**Pobl sy'n cael budd-daliadau incwm isel**

Tudalen 4

3

Cyllid a Thollau EM

**Pobl sy'n cael credydau treth**

Tudalen 7

4




**Cymorth pellach gyda Chostau Byw**

Tudalen 9

# 1 Cyflwyniad



Rydym yn gwybod bod pobl yn poeni am gostau cynyddol i'w costau byw, felly mae'r llywodraeth yn cynnig cymorth.




Mae'r daflen hawdd i'w darllen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth am daliadau Costau Byw i Gartrefi.

Am ragor o wybodaeth, ewch i [gov.uk/helpforhouseholds](gov.uk/helpforhouseholds)

# 2 Pobl sy'n cael budd-daliadau incwm isel




Bydd miliynau o bobl ar fudd-daliadau meini prawf yn cael yr ail o 3 Taliad Costau Byw.

Gallai hyn ddod i gyfanswm o **£900**.




Mae hyn ar ben y taliadau a wnaed y llynedd, a oedd yn werth hyd at **£650**.




Bydd y rhai sy'n gymwys yn cael eu taliad cyntaf yr un ffordd ag y maent yn cael eu taliadau budd-daliadau rheolaidd.



Talwyd y taliad cyntaf o **£301** yn awtomatig yn ystod Gwanwyn 2023.

£300

Bydd yr ail daliad o **£300** yn cael ei dalu i bobl sy'n gymwys o gartrefi incwm isel rhwng 31 Hydref a 19 Tachwedd.



Bydd y trydydd taliad o **£299** yn cael ei dalu yn ystod Gwanwyn 2024 i'r mwyafrif o bobl.



Nid oes angen i chi wneud cais gan fod y taliad yn awtomatig.




Os ydych wedi cael neges yn gofyn i chi wneud cais neu gysylltu â rhywun am y taliad, gall hyn fod yn sgam.

# 3 Pobl sy'n cael credydau treth

Cyllid a
Thollau EM

Bydd pobl sy'n cael credydau treth a dim budd-daliadau incwm isel eraill yn cael eu taliad cyntaf gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.



Talwyd y taliad cyntaf o **£301** yn awtomatig yng Ngwanwyn 2023.



Bydd yr ail daliad o **£300** yn cael ei dalu i gwsmeriaid sydd ond yn cael credydau treth.

Bydd hwn yn cael ei dalu rhwng 10 a 19 Tachwedd, yn yr un modd rydych yn cael eich taliadau credydau treth rheolaidd.



Bydd y trydydd taliad o **£299** yn cael ei dalu yn ystod Gwanwyn 2024 i'r mwyafrif o bobl.

# 4 Cymorth Pellach gyda Chostau Byw




Efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth pellach at Gostau Byw yn dibynnu ar eich amgylchiadau.



Mae hyn yn cynnwyspensiynwyr a phobl sy'n cael budd-daliadau anabledd.

Darganfyddwch fwy am yr ystod o gefnogaeth y llywodraeth gyda Chostau Byw. Ewch i gov.uk/helpforhouseholds